

Rheoliadau drafft a osodwyd gerbron Senedd Cymru o dan adran 203(6) o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006, i'w cymeradwyo drwy benderfyniad gan Senedd Cymru.

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU DRAFFT

2021 Rhif (Cy.)

**Y GWASANAETH IECHYD
GWLADOL, CYMRU**

**Rheoliadau Lefelau Staff Nyrsio
(Estyn Sefyllfaoedd) (Cymru) 2021**

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)

O dan adran 25B o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006, mae Bwrdd Iechyd Lleol neu Ymddiriedolaeth GIG sy'n darparu gwasanaethau nyrsio mewn perthynas â'r lleoliadau clinigol hynny a bennir yn is-adran 25B(3), sef wardiau meddygol aciwt i gleifion mewnol sy'n oedolion a wardiau llawfeddygol aciwt i gleifion mewnol sy'n oedolion, o dan ddyletswydd i gyfrifo lefelau staff nyrsio a chymryd camau i'w cynnal, ac i hysbysu cleifion am y lefelau staff nyrsio hynny.

Mae'r Rheoliadau hyn yn estyn y sefyllfaoedd y mae'r dyletswyddau o dan adran 25B o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006 yn gymwys iddynt i gynnwys wardiau cleifion mewnol pediatrig.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Aseidiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, lluniwyd asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn yng Nghymru. Gellir cael copi oddi wrth: Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ.

Rheoliadau drafft a osodwyd gerbron Senedd Cymru o dan adran 203(6) o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006, i'w cymeradwyo drwy benderfyniad gan Senedd Cymru.

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU DRAFFT

2021 Rhif (Cy.)

**Y GWASANAETH IECHYD
GWLADOL, CYMRU**

**Rheoliadau Lefelau Staff Nyrsio
(Estyn Sefyllfaoedd) (Cymru) 2021**

Gwnaed

Yn dod i rym

1 Hydref 2021

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddir gan adrannau 25B(3)(c) a 203(9) o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006(1), yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn.

Yn unol ag adran 203(6) o'r Ddeddf honno, gosodwyd drafft o'r Rheoliadau hyn gerbron Senedd Cymru(2) ac fe'i cymeradwywyd ganddi drwy benderfyniad.

Enwi a chychwyn

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Lefelau Staff Nyrsio (Estyn Sefyllfaoedd) (Cymru) 2021.

-
- (1) 2006 p. 42; gweler adran 206(1) am y diffiniad o "regulations". Mewnosodwyd adran 25B yn Neddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006 ("Deddf 2006") gan adran 1(1) o Deddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) 2016 (dccc 5) ("Deddf 2016"). Diwygiwyd adran 203(6) o Ddeddf 2006 gan adran 1(2) o Ddeddf 2016 i ddarparu bod rheoliadau sy'n cael eu gwneud o dan adran 25B(3)(c) o Ddeddf 2006 yn cael eu gwneud yn unol â'r weithdrefn gadarnhaol. Mewnosodwyd y diffiniad o "nurse staffing level", fel y'i diffinnir yn adran 25B(1)(a) o Ddeddf 2006, yn y tabl o ymadroddion wedi eu diffinio yn adran 207 o'r un Ddeddf gan adran 1(3) o Ddeddf 2016.
- (2) Mae'r cyfeiriad yn adran 203(6) at Gynulliad Cenedlaethol Cymru bellach yn cael effaith fel cyfeiriad at Senedd Cymru yn rhinwedd adran 150A(2) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32).

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 1 Hydref 2021.

Sefyllfaedd penodedig ar gyfer gwasanaethau nyrsio

2. Mae wardiau cleifion mewnol pediatrig wedi eu pennu yn sefyllfa y mae'r dyletswyddau o dan adran 25B o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006 yn gymwys iddi.

Enw

Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol,
un o Weinidogion Cymru
Dyddiad